MAWRTH **2026**

# PEN Y MYNYDD

YSGOL GYMRAEG BRO MORGANNWG

*Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd!*





## Taith Brwsel a Lille

Roedd y daith i Brussels ac Lille yn brofiad anhygoel na fyddaf byth yn ei anghofio. Cawsom nifer o gyfleoedd i ymarfer ein Ffrangeg a chyfathrebu gyda phobl newydd. Ymwelon ni amgueddfa gomig ddiddorol iawn, lle dysgon ni am hanes llyfrau comig enwog yn Ffrainc a Gwlad Belg. Un o uchafbwyntiau'r daith oedd y sesiwn creu siocled ym Mrwsel, lle buom yn dysgu sut mae siocled yn cael ei greu ac wedi cael y cyfle i wneud siocled ein hunain. Hefyd, gwelsom lawer o atyniadau hardd o amgylch y dinasoedd a mwynhau cerdded o gwmpas siopau newydd Ewropeaidd. Roedd y daith yn un wych, gan greu nifer o atgofion melys gyda ffrindiau!

*Elin Mckay Blwyddyn 12*

## Lille and Brussels Trip

The trip to Brussels and Lille was an amazing experience which I will never forget. We had many opportunities to practice our French and communicate with new people. We visited an interesting comic museum, where we learnt about the history of comics in Belgium and France. One of the highlights of the trip was the chocolate making session in Brussels, we learnt how chocolate is made and even got the opportunity to make some ourselves. Also, we saw many lovely attractions around the cities and enjoyed walking around new European shops. The trip was super, creating many sweet memories with friends!

*Elin Mckay Year 12*



## Her 3 Chopa Staff

Mae 2025 yn flwyddyn arbennig iawn yn hanes ein hysgol gan ein bod yn dathlu penblwydd arbennig yn 25 mlwydd oed. Ers agor ein drysau yn y flwyddyn 2000 gyda dim on 120 o ddisgyblion a 10 aelod o staff, rydym wedi tyfu'n aruthrol. 25 mlynedd yn ddiweddarach mae gennym 1400 o ddisgyblion a 150 o staff yn gwasanaethu addysg gymraeg Sir Bro Morgannwg.

I nodi'r garreg filltir arwyddocaol hon rydym wedi trefnu rhaglen lawn o weithgareddau a dathliadau. Ar benwythnos y 6ed o Fawrth cwblhaodd 25 aelod o staff Her y Tri Chopa gan ddringo'r Wyddfa, Cadair Idris Pen y Fan – tipyn o gamp a her gorfforol a hanner! Codwyd dros £3000 at ein hymgyrch bws mini newydd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau – mae'r linc ar ein cyfrif Instagram os hoffech ein noddi.

## Staff 3 Peaks Challenge

2025 is a very special year in the history of our school as we are celebrating a significant milestone — our 25th anniversary. Since opening our doors in the year 2000 with only 120 pupils and 10 members of staff, we have grown enormously. Twenty five years later, we now have 1,400 pupils and 150 staff members serving Welsh medium education in the Vale of Glamorgan.

To mark this important milestone, we have organised a full programme of activities and celebrations. On the weekend of the 6th of March, 25 members of staff completed the Three Peaks Challenge by climbing Snowdon, Cadair Idris and Pen y Fan - quite an achievement and a significant physical challenge! Over £3,000 was raised towards our new minibus campaign. Thank you to everyone for your contributions – the link is on our Instagram account if you would like to sponsor us.



## Cystadleuaeth Top of the Bench Gwyddoniaeth

Ym mis Ionawr, cymerodd tîm o ddisgyblion ran yn y gystadleuaeth 'Top of the Bench' ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd rhaid i'r tîm gwblhau cwis gwyddonol heriol ac adeiladu modelau 3D o foleciwlau. Gweithiodd y disgyblion yn dda iawn fel tîm. Da iawn, bawb!

## Top of the Bench Science Competition

In January, a team of pupils took part in the 'Top of the Bench' competition at Cardiff University. The team had to complete a challenging Chemistry quiz and build 3D models of molecules. The pupils worked very well as a team. Well done, everyone!

## Aur, Arian ac Efydd i Fathemategwyr Blwyddyn 11

Cymerodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 ran yng Nghystadleuaeth Senior Maths Challenge – cystadleuaeth fathemateg genedlaethol uchel ei bri a gynhelir ledled Prydain. Cafwyd llwyddiant arbennig eleni, gyda 23 o ddisgyblion yn ennill tystysgrifau arian ac efydd, sy'n dystiolaeth glir o'u hymrwymiad, eu dyfalbarhad a'u sgiliau mathemategol cryf. Aeth Idris Glyn Jones gam ymhellach fyth, gan ennill tystysgrif aur ac, yn fwy na hynny, gwahoddiad i gystadlu yn rownd nesaf y gystadleuaeth. Tipyn o gamp i gyrraedd y lefel yma! Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion, oddi wrth bawb yn yr Adran Fathemateg – rydym yn falch iawn ohonoch.

## Gold, Silver and Bronze for Our Year 11 Mathematicians

A group of Year 11 pupils took part in the Senior Maths Challenge, a prestigious national mathematics competition held across the UK. This year saw outstanding success, with 23 pupils achieving Silver and Bronze certificates, reflecting their commitment, persistence and strong mathematical skills. Idris Glyn Jones went one step further, earning a Gold certificate and, in addition, receiving an invitation to compete in the next round of the competition. Reaching this level is a fantastic accomplishment. Congratulations to all the pupils involved, from everyone in the Mathematics Department – we are extremely proud of you.




## Adran Gymraeg

Daeth tymor y cystadlaethau siarad cyhoeddus yn gyfle i ddisgyblion yr Adran Gymraeg ddangos eu sgiliau. Dechreuodd Blwyddyn 9 drwy gystadlu yn nhwrnameint dadlau Rhwydwaith Seren, gan fwynhau trafodaeth frwd a sicrhau ail safle — llongyfarchiadau i Emlyn Evans, Betsan Black, Iwan Lucas a Liza Braddon am eu perfformiad rhagorol.

Yn dilyn hynny, llwyddodd y tîm hŷn i gyrraedd rownd derfynol Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rotari De Cymru yn Yr Egin, Caerfyrddin. Trafododd y tîm bwnc dadleuol ynghylch targed Cymraeg 2050, gan ddod yn drydydd yn gyffredinol. Cafwyd llwyddiant unigol hefyd, gyda Elan Roberts yn drydydd yng nghategori'r Cadeirydd Gorau a Talar Rhys-Dillon yn ennill y categori Siaradwr Yn Erbyn Gorau.

Yn ogystal, trefnwyd ymweliad ysbrydoledig gan Rolant Tomos, a arweiniodd weithdai creadigol i ddysgu disgyblion Blwyddyn 8 a 9 sut i greu cymeriadau a sefyllfaoedd cyffrous wrth baratoi ar gyfer cystadleuaeth Radio Cymru




## Welsh Department




The Welsh Department enjoyed a successful season of public speaking competitions, with pupils from various year groups representing the school. Year 9 were first to compete in the Seren Network debating competition, taking part in a challenging discussion and securing an impressive second place thanks to the strong performances of Emlyn Evans, Betsan Black, Iwan Lucas and Liza Braddon.

The Sixth Form then took part in the Rotary South Wales Public Speaking competition, reaching the final at Yr Egin, Carmarthen. Their topic, centred on the Welsh Government's 2050 language target, sparked lively debate, and the team finished third overall. Individual success followed, with Elan Roberts placing third in the Best Chairperson category and Talar Rhys-Dillon winning Best Opposing Speaker.

In addition, author Rolant Tomos delivered engaging creative writing workshops, where Year 8 and 9 pupils developed characters and crisis scenarios in preparation for the Radio Cymru writing competition.

## Adran Saesneg

Mae'r Adran Saesneg wedi bod yn hynod o brysur y tymor hwn. Mae ein disgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithdai ac wedi sicrhau llwyddiant mewn cystadlaethau lleol.

Aeth wyth o ddisgyblion Lefel A i weithdy barddoniaeth yn Abertawe ar Skirrid Hill. Cawsant fewnwelediad gan Owen Sheers i'r cerddi a'r broses greadigol, ynghyd â sesiynau arholwyr ar gerddi newydd. Datblygodd y myfyrwyr sgiliau dadansoddi hanfodol ar gyfer eu harholiadau Lefel A.

Cymerodd flwyddyn 12 ran mewn gweithdy dadlau a'u heriodd i feddwl yn feirniadol am faterion cyfoes allweddol. Cynrychiolwyd yr ysgol gan Owain-Morgan Weighell, Cara McLellan a Seren Bowen yn ESU Schools' Mace enwog ac rydym yn hynod falch o'u perfformiad. Aethant ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn y gystadleuaeth Oxford Schools'. Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Blwyddyn 10 ar eu perfformiad trawiadol yn rownd gyntaf Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr ESU. Ac yn olaf, hoffem roi clod arbennig i Gruffydd Bennet ac Osian Pugh am gael eu dewis i gynrychioli'r ysgol yng Nghystadleuaeth Performing Shakespeare yr ESU. Byddant yn perfformio monologau grymus ac yn cystadlu yn erbyn ystod eang o ysgolion yn rownd cyntaf y gystadleuaeth yn Gloucester.

## English Department

The English Department has been exceptionally busy. Our pupils have taken part in a wide range of workshops and achieved success in local competitions.

Eight A Level pupils attended a poetry workshop in Swansea focused on Skirrid Hill. The event provided valuable insight from Owen Sheers into both the poems and his creative process, complemented by examiner-led sessions on unseen poetry. The experience strengthened students' analytical skills in preparation for their A Level examinations.

Year 12 took part in a debating workshop which challenged them to think critically about key contemporary issues. The school was represented by Owain Morgan Weighell, Cara McLellan and Seren Bowen in the prestigious ESU Schools' Mace, and we are extremely proud of their performance. They went on to represent the school in the Oxford Schools' competition. Huge congratulations to the Year 10 pupils for their outstanding performance in the first round of the ESU Public Speaking Competition. And finally, we would like to give special praise to Gruffydd Bennet and Osian Pugh for being chosen to represent the school in the ESU Performing Shakespeare Competition. They will perform powerful monologues and compete against a wide range of schools in the first round of the competition in Gloucester.



## Taith Sgïo Andorra

Yn ystod hanner tymor, teithiodd disgyblion Blwyddyn 10, 12 a 13 ar daith sgïo fythgofiadwy i Grandvalira, Andorra. Ar ôl siwrnai hir o 27 awr, cyrhaeddon ni'r gwesty mewn pryd ar gyfer swper a chwis i agor yr wythnos. Bu'r disgyblion yn mwynhau gwersi sgïo bob bore ac yn datblygu eu sgiliau yn y prynhawn, er gwaethaf tywydd cymysg a thipyn o ddrama gyda pholyn Mr Davies! Ymwelwyd ag Andorra la Vella i siopa a mwynhau perfformiad fflachmob annisgwyl. Roedd cynnydd amlwg ymysg y disgyblion, a chafwyd digon o hwyl mewn disgo après ski a noson o fowlio. Cynhaliwyd noson wobrwyo i ddathlu ymdrechion pawb, a threuliwyd y bore olaf ar y llethrau cyn dychwelyd adref. Roedd yr wythnos yn llawn hwyl, cyfeillgarwch a phrofiadau bythgofiadwy, gyda diolch mawr i'r staff a'r disgyblion am eu hymroddiad a'u hymddygiad rhagorol

*Alys Evans, Blwyddyn 13*

## Andorra Skiing Trip

During half term, pupils from Years 10, 12 and 13 travelled on an unforgettable skiing trip to Grandvalira, Andorra. After a long 27 hour journey, we arrived at the hotel in time for a delicious supper and a fun quiz to start the week. Each day included morning ski lessons followed by afternoon sessions to develop our skills, despite mixed weather and a bit of drama when Mr Davies managed to break his ski pole on the first day! A visit to Andorra la Vella offered shopping time and an unexpected flashmob performance. Pupils' progress on the slopes became clear as the week went on, with plenty of enjoyment at the après ski disco and an evening of bowling. A special awards night celebrated everyone's effort and improvement before we enjoyed a final morning on the slopes. The week was full of fun, friendship and unforgettable memories, thanks to the staff and the pupils' excellent behaviour.

*Alys Evans, Year 13*







### Hanes – Taith Parc Treftadaeth Blwyddyn 8

Roedd taith Hanes Blwyddyn 8 i Barc Treftadaeth y Rhondda yn brofiad addysgiadol a chofiadwy. Dechreuodd y diwrnod gyda thaith o amgylch yr amgueddfa, gan weld arteffactau hanesyddol pwysig ac injan stêm a ddefnyddiwyd i gludo glowyr a chodi glo i'r wyneb. Aeth y disgyblion i lawr y pwll glo gyda chyn glowyr, gan wisgo helmedau a dysgu am y 'Davy Lamp'. Rhannwyd ffeithiau diddorol, megis sut mae glo wedi ffurfio dros filiynau o flynyddoedd, a chafwyd cyfle i brofi efelychiad cart mwyngloddio. Ar ôl dychwelyd i'r wyneb, gwelwyd arbrawf gwyddonol am fethan a lliwiau fflam. Roedd y daith yn brofiad hynod o ddiddorol ac yn gyfle gwych i ddysgu.

*Rebeca Harri, Blwyddyn 8*

### History – Year 8 Heritage Park Trip

The Year 8 History trip to the Rhondda Heritage Park was an educational and memorable experience. The day began with a tour of the museum, where we saw important historical artefacts and a steam engine used to transport miners and lift coal to the surface. Pupils then travelled underground with former miners, wearing helmets and learning about the 'Davy Lamp'. Fascinating facts were shared, including how coal formed from trees over millions of years, and there was an opportunity to try a mining cart simulation. After returning to the surface, pupils watched a science experiment showing how methane levels affect miners and how different elements change the colour of a flame. It was an extremely enjoyable and informative trip.

*Rebeca Harri, Year 8*

### Rhaglen Mentora Lles

Mae'r Cynllun Mentora yn parhau eto eleni wrth i ddisgyblion y 6ed weithio gyda disgyblion iau yr Ysgol. Pob dydd Mawrth ers dechrau'r flwyddyn mae nifer o ddisgyblion y chweched wedi bod yn treulio amser cinio yn cefnogi disgyblion gyda sgiliau cymdeithasu a gwytnwch, wrth gynnal sgyrsiau a chwarae gemau gyda nhw. Hoffem ddiolch i'r chweched am eu parodrwydd i helpu ac am eu awydd i wneud gwahaniaeth i fywydau ysgol y disgyblion iau. Hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Tesco Barri am ei rhodd hael o adnoddau a gweithgareddau i ddiddanu'r disgyblion yn y sesiynau Mentora.

### Wellbeing Mentoring Programme

The Mentoring programme is going ahead once again this year with many members of our 6th form pupils working with younger pupils. Every Tuesday since the beginning of the year the 6th form pupils have been spending their lunch time supporting the younger pupils with social skills and resilience, while holding conversations and playing games with them. We would like to thank the sixth formers for their willingness to help and their desire to make a difference to the school lives of the younger pupils. We would also like to take this opportunity to thank Tesco Barry for their generous donation of resources and activities to entertain the pupils in the Mentoring sessions.





## GWAITH ELUSENNOL A CHYMUNEDOL | CHARITABLE AND COMMUNITY WORK







Daeth y gymuned ysgol ynghyd i godi arian i elusen Jac Bach, gyda'r Chweched yn arwain gweithgareddau hwyliog i ddisgyblion iau, gan gynnwys cystadlaethau, bingo a charioci. Codwyd £690 drwy dîm gwaith rhagorol, gan adlewyrchu ymdrech a brwdfrydedd pawb. Llongyfarchiadau i bawb! Cynhaliwyd 'Brrrrmorgannwg' eto eleni, gyda'r Chweched yn rhedeg i'r môr oer yn Ynys y Barri i godi arian i Latch. Trefnodd y Prif Ddisgyblion stondinau cacennau hefyd. Hyd yma, mae £1000 wedi'i godi i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu canser. Mae disgyblion y 6ed wedi'u dewis i wirfoddoli yn Ysbyty'r Barri, gan helpu'r gymuned ehangach a datblygu sgiliau iechyd pwysig. Byddant yn defnyddio'r Gymraeg gyda chleifion ac ymwelwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu hymrwymiad i gefnogi cleifion mewn adrannau amrywiol.

The school community came together to raise money for the Jac Bach charity, with the Sixth Form leading fun activities for younger pupils, including competitions, bingo and karaoke. £690 was raised through excellent teamwork, reflecting everyone's effort and enthusiasm. Congratulations to all! 'Brrrrmorgannwg' took place again this year, with Sixth Form pupils running into the cold sea at Barry Island to raise money for Latch. The Head Pupils also organised cake stalls. So far, £1000 has been raised to support children, young people, and families facing cancer. The 6th Form pupils have been selected to volunteer at Barry Hospital, helping people within the wider community and developing important skills for future careers in health. They will have the opportunity to use Welsh with some patients and visitors. We are very grateful for their commitment in supporting patients across various hospital departments.

## NEWYDDION O'R 6ED DOSBARTH | 6TH FORM NEWS

### Iechyd a Lles

Elwodd y disgyblion o sesiynau iechyd a lles gan Brifysgol De Cymru, gan ddysgu am reoli straen a phryder. Cyflwynodd 'Oddballs' a Gwasanaeth Gwaed Cymru wybodaeth bwysig, ac addysgodd 'Myfyrwyr yn Achub Bywydau' y bobl ifanc am CPR a sut i ymateb mewn argyfwng meddygol.

### Health and Wellbeing

Pupils benefited from health and wellbeing sessions delivered by the University of South Wales, learning about managing stress and anxiety. 'Oddballs' and the Welsh Blood Service provided important information, and 'Students Saving Lives' educated the young people about CPR and how to respond in a medical emergency.



### Cyflwyniadau Ysbrydoli

Mae'r Chweched wedi croesawu nifer o siaradwyr gwadd eleni, gan gynnwys Met Caerdydd, Dr James Gough, Addysgwyr Cymru a rhaglen Syniadau Mawr Cymru. Bu'r sesiynau'n ysbrydoledig ac yn cynnig cyngor gwerthfawr i ddisgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig am eu dyfodol..

### Inspiring Presentations

The Sixth Form has welcomed a number of guest speakers this year, including representatives from Cardiff Met, Dr James Gough, Addysgwyr Cymru, and the Big Ideas Wales programme. The sessions were inspiring and offered valuable advice to pupils as they make important decisions about their future.

### Hystings Ieuenctid Cenedlaethol yr Urdd

Cymerodd Prif Ddisgyblion a disgyblion y Chweched ran yn Hystings yr Urdd, digwyddiad i hyrwyddo etholiad y seithfed Senedd. Dysgon nhw am newidiadau democrataidd, ac roedd y gweithdy rhyngweithiol gyda phleidiau Cymru yn uchafbwynt, gan roi cyfle gwerthfawr i ofyn cwestiynau.

### Urdd National Youth Hustings

Head Pupils and members of the Sixth Form took part in the Urdd Hustings, an event promoting the election of the seventh Senedd. They learned about democratic changes, and the interactive workshop with Welsh political parties was a highlight, giving them a valuable opportunity to ask questions.

### Cynigion Prifysgol

Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 13 wedi derbyn cynigion prifysgol nodedig. Cafodd Conor Wiliams gynnig gan Gaergrawnt, a derbyniodd Mabli Vaterlaws a Ben Jones gynigion gan Rydychen. Llwyddodd Wil Thomas i sicrhau lle mewn Cyfrifiadureg yn Rhydychen a Stanford, gan adlewyrchu llwyddiant academaidd eithriadol y flwyddyn.

### University Offers

A number of Year 13 pupils have received notable university offers. Conor Wiliams received an offer from Cambridge, and Mabli Vaterlaws and Ben Jones received offers from Oxford. Wil Thomas succeeded in securing a place to study Computer Science at both Oxford and Stanford, reflecting the exceptional academic success of the year group.





### Y Chweched a'r Ysgol isaf

Bu aelodau'r 6ed yn arwain chwarae buarth ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, gan wneud argraff gadarnhaol ar y disgyblion iau. Arweiniodd Grace ac Evie wersi coginio i flwyddyn 5, gan feithrin hyder a sgiliau'r plant. Bu'r bartneriaeth yn llwyddiannus ac wedi creu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y grwpiau.

### The Sixth Form and the Lower School

Members of the Sixth Form have been leading playground games and promoting the Welsh language, making a positive impression on the younger pupils. Grace and Evie led cooking lessons for Year 5, helping to build the children's confidence and skills. The partnership has been successful and has created positive connections between the two groups.

## Llwyddiant Eisteddfod Ddawns

Mae'r adran Ddawns wedi bod yn gweithio'n galed unwaith eto blwyddyn yma yn paratoi disgyblion a dawnswyr ifanc ar gyfer cystadleuaethau'r Eisteddfod! Cafwyd cryn dipyn o lwyddiant yn yr Eisteddfod Sir! Daeth y grŵp Creadigol yn ail a'r grwpiau Stryd ac Aml-gyfrwng dan 25 yn gyntaf. Llongyfarchiadau arbennig i Mairwen Thomas a Bella Hutchings ddaeth yn gyntaf ac yn ail yn y dawnsio unigol. Rydyn ni yn falch iawn o bob un aelod o'r grwpiau ac yn edrych ymlaen at weld eu brwdfrydedd yn cystadlu unwaith eto yn Eisteddfod yr Urdd, Môn fis Mai.

## Dance Department Success

The Dance department has been working hard once again this year preparing pupils and young dancers for the County Eisteddfod competitions! There has been a great deal of success! The Creative group came second, and the Street and Under 25 Multi Media groups came first. Special congratulations to Mairwen Thomas and Bella Hutchings, who came first and second in the solo dance performances. We are very proud of every member of the groups and look forward to seeing their enthusiasm as they compete once again in the Urdd Eisteddfod, Anglesey in May!






Gwyliwch ar Instagram a gwefan yr ysgol.


Watch on Instagram and the School website.

@ysgolyfro

www.ygbm.cymru

VLOG
Y PENNAETH







## Llwyddiannau a phrofiadau cerddorol

Mae'r Adran Gerddoriaeth wedi bod yn hynod brysur drwy'r tymor yn cynnal cyngherddau ac yn paratoi at gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Mae'r cor wedi canu mewn Gŵyl Gymreig yn y Bont-faen, gŵyl i hyrwyddo Addysg Gymraeg ac ysgol newydd Iolo Morganwg. Yn ogystal maent wedi cymryd rhan mewn cyngerdd ym Mro Ogwr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. I goroni'r cyfan cafwyd tipyn o lwyddiant yn yr Eisteddfod Sir Offerynnol a Lleisiol a bydd unawdwyr, ensemble offerynnol, partion canu iau a hŷn a Chôr SATB yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn ym mis Mai. Dymunwn bob llwyddiant i'r holl ddisgyblion.

## Musical success and experiences

The Music Department has been extremely busy throughout the term holding concerts and preparing to compete in the County Eisteddfod. The choir has sung at a Welsh Festival in Cowbridge, an event promoting Welsh-medium Education and the new Iolo Morganwg school. In addition, they have taken part in a concert in Bridgend to celebrate St David's Day. To crown it all, there was considerable success at the County Vocal and Instrumental Eisteddfod, and soloists, instrumental ensembles, junior and senior parties, and the SATB Choir will represent the school in the Urdd Eisteddfod on Anglesey in May. We wish all the pupils every success.





## Rownd Cyn-derfynol Cwpan Cymru

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed bechgyn blwyddyn 8 ar eu buddugoliaeth o 4-1 yn erbyn Ysgol Llanwern i gyrraedd rownd cyn-derfynol Cwpan Cymru. Pob lwc i'r bechgyn yn y rownd nesaf.

## Welsh Cup Semi-finals

Congratulations to our year 8 boys' football team who recently beat Llanwern by 4-1 to reach the Welsh Cup Semi-finals. Good luck to the whole squad in the next round.





## Cynrychioli Rhanbarth Caerdydd

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion uchod a'r gynrychioli rhanbarth Caerdydd dros y tymor diwethaf. Tipyn o lwyddiant gan ystyried safon y gystadleuaeth i gyrraedd y safon yma. Ysgol falch iawn.

## Cardiff region rugby teams

Congratulations to the above students on representing the Cardiff region rugby teams over the pasr season. This is some achievement considering the standard of competition to reach these squads. We are very proud of your boys.

**O dan 18 oed** - Ffredi Easterby, Liam Williams, Jack Evans

**O dan 16 oed** - Jacob Hunter, Efan Mitchell, Oscar Thomas, Ellis Hudson

## Hoci Bechgyn o dan 18 oed

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn hoci o dan 18 oed yr Ysgol ar gyrraedd rowndiau terfynol cwpan Cymru ac am gystadlu mor frwd. Wedi i bob tîm ennil dwy a cholli un, trydydd yng Ngymru oedd bechgyn Y Fro ar wahaniaeth goliau. Da iawn fechgyn.

## Under 18 Boys Hockey

A huge congratulations to our ubder 18 boys' hockey team on their admiral performance at the Welsh Cup finals day in Denbigh. After all four teams at the finals won two games and lost one each, the Bro Morgannwg boys finished 3rd in Wales on goal difference. Well done boys!



@ysgolyfro

www.ygbm.cymru



## Cystadleuaeth Rygbi 7-bob-ochr

Llongyfarchiadau i dimoedd rygbi 7-bob-ochr Blwyddyn 7 a 8 ar ddod yn Bencampwyr Ysgolion Y Fro. Perfformiadau brwd a ymroddgar gan y ddwy garfan i gipio'r cwpan. Da iawn fechgyn.

## 7-a-side rugby competition

Congratulations to the year 7 and 8 7-a-side rugby squads on becoming the Vale of Glamorgan Schools' Champions. Both year groups showed commitment and endeavour the win the cup. Well done boys.





## Rownd derfynol Rygbi Cwpan Cymru

Mae'r tîm rygbi hŷn yn parhau i brofi tymor llwyddiannus iawn. Wedi iddynt gipio teitl Pencampwyr y gynghrair cyn y Nadolig, maent nawr wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru drwy guro Ysgol Bro Preseli o 43-12. Un gêm i fynd fechgyn!

## Welsh Cup Rygby final

The senior rugby team continue to experience a very successful season. After winning the league finals at the Principality Stadium before Christmas, they have now secured their place in the Welsh Cup final with a 43-12 win over Ysgol Bro Preseli. One game to go boys!

## Rowndiau Terfynol Pêl-rhwyd Caerdydd a'r Fro

Llongyfarchiadau i ferched pêl-rhwyd Bl.11 ar gyrraedd rowndiau terfynol Caerdydd a'r Fro. Fe wnaeth y merched gystadlu yn frwd a gorffen yn 3ydd yn y sir. Arbennig ferched!

## Cardiff and the Vale Schools' Netball Finals

Congratulations to the year 11 netball girls on reaching the Cardiff and the Vale Schools' Netball Finals. The girls showed excellent endeavour and skill to finish 3rd in the county. Superb girls!



## Gymnasteg Ysgolion Caerdydd a'r Fro

Balch iawn o berfformiadau y garfan yma yng nghystadleuaeth gymnasteg Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar.

## Cardiff and the Vale Gymnastics

Very proud of these gymnasts performances at the recent Cardiff and the Vale Gymnastics Competition.





## Gymnasteg Ysgolion Prydain

Llongyfarchiadau i fechgyn o dan 13 oed a 16 oed ar gyrraedd rowndiau terfynol gymnasteg Ysgolion Prydain yn Stoke ym Mis Mawrth. Roedd y tîm o dan 13 oed yn 4ydd ym Mrydain â'r tîm o dan 16 oed yn 2il. Gwych fechgyn!

## British Schools' Gymnastics

Congratulations to the boys' under 13 and under 16 gymnastics teams on reaching the British Schools' Gymnastics Finals in Stoke in March. The Under 1 team came 4th and the Under 16 team were 2nd in Britain! Excellent boys!



Am y newyddion diweddaraf, gwyliwch vlog y pennaeth ar Instagram a gwefan yr ysgol.

For the latest news, watch the heads vlog on Instagram and the school website.